CYNGOR CYMUNED BETWS GWERFYL GOCH

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 18 Mai 2015.

1. Presennol – Emyr Roberts, Ieuan Davies, Gareth Williams, Hefin Lloyd Davies, Asheton Crawley, Bryan Thomas, Trebor Edwards, Gwyn Edwards, Elin Roberts (Clerc)
2. Ymddiheuriadau – Y Cynghorydd Eryl Williams
3. Derbyn Cofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2015 – derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
4. Materion yn codi o'r cofnodion –
    a. Clywyd nad oedd y clerc wedi clywed gan swyddog y cyngor sir ac er iddi anfon ato eilwaith roeddem yn dal i aros am ateb. Cadarnhawyd bod y clerc wedi gwneud cais i gael ffens a giât newydd ar y cae chwarae ym Melin y Wig

5. Cofgolofn Betws Gwerfyl Goch – clywyd gan y clerc bod 2 allan o'r tri cwmni a ofynnwyd am amcan bris wedi nodi nad oeddynt am dderbyn y gwaith oherwydd bod gormod o waith i'w gwneud arni.. Clywyd bod Cofgolofnau'r Dyffryn wedi cadarnhau y byddant yn ymweld â hi yn fuan i anfon manyleb llawn i mewn. Bwriedir gwneud cais am grant i roi cymorth gyda'r talu.
6. Gwefan newydd y Cyngor Cymuned – www.betwsgwrfylgoch.cymru – clywyd bod y wefan bron a bod yn barod ond erfyniodd y clerc ar y cynghorwyr i holi ac edrych am ddeunyddiau addas ar gyfer eu cynnwys – megis lluniau, hen straeon ac ati.
7. Cais Cynllunio – clywyd bod cais ar gyfer melin wynt ar fferm Hafod Bryn Cyffo. Ym mhlwy Gwyddelwern mae'r cais ac nid oedd gwrthwynebiad gan y cynghorwyr.
8. Cronfa Cymunedol Triodos – clywyd bod y dyddiad cau heddiw a bod tri cais wedi dod i law. Penderfynwyd anfon at y rhain i'w hysbysu bod yn rhaid talu am offer newydd i gae chwarae Betws yn gyntaf cyn bod yn hollol glir faint o arian fydd ar gael i'w ddyrannu. Pasiwyd i wahodd Sian Smith a Nia Williams fel aelodau cymunedol o'r panel am 2015.
9. Gohebiaeth –
    a. Gwyl Ddrama Corwen – pasiwyd i gyfrannu £25
    b. Web blog i'r anabl – pasiwyd i arddangos y llythyr ar hysbysfwrdd Betws
    c. Pafiliwn y Pobl – Corwen – cynrychiolwyr – Trebor a Iauan – pasiwyd i anfon y llythyr yn ôl fel cefnogaeth i Nan Llwyn Saint
10. Hysbysfwrdd Melin y Wig – roedd damwain yn ddiweddar pan oedd cerbyd wedi taro yn erbyn yr hysbysfwrdd a'i ddinistrio. Penderfynwyd gofyn am hysbysfwrdd newydd yn ei le i'r rhai a'i tarodd.
11. Unrhyw Fater Arall – clywyd bod y ffordd o Hendre heibio i Penybryniau yn llawn tyllau a'i fod angen ei drwsio. Gofynnwyd i'r clerc anfon at CSD.

12. Dyddiad y Pwyllgor Nesaf – yn fuan wedi i'r gwaith o osod offer newydd yn y parc chwarae ym Metws gael ei gwblhau ac yna cynnal panel Cronfa Cymunedol yr un pryd pan fydd sefyllfa ariannol yn fwy eglur.